| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 21, Mehefin, 2012. |
| Pwnc | Penodiadau i'r Pwyllgor Archwilio. |
| Awdur | Dilys Phillips, Swyddog Monitro |

1. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 17eg o Fai, 2012 ynglŷn â threfn benodi ar gyfer aelod lleyg i'r Pwyllgor Archwilio, aed ati i hysbysebu yn y wasg ar y cyd gyda dau gyngor arall, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych.

2. Ymddangosodd yr hysbyseb yn y wasg ar y 7fed o Fehefin gyda dyddiad cau ar yr 20fed o Fehefin.

3. Oherwydd yr amserlen dyn, nid yw'n bosib i'r Grŵp Busnes ystyried y ceisiadau a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor ar y 21ain o Fehefin. Ar y llaw arall ni ellir disgwyl tan y cyfarfod dilynol o'r Cyngor oherwydd bod angen i'r Pwyllgor Archwilio gyfarfod i dderbyn y datganiadau ariannol terfynol ac adroddiad yr Archwiliwr arnynt. Nid yw yn gyfansoddiadol bosibl i'r Pwyllgor gyfarfod oni bai fod aelod lleyg wedi ei benodi iddo.

4. Dan yr amgylchiadau gofynnir i'r Cyngor ddirprwyo yn ffurfiol i'r Swyddog Monitro yr hawl i benodi aelod lleyg ar y Pwyllgor Archwilio, yr hawl i'w weithredu mewn ymgynghoriad ag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol a'r Pennaeth Cyllid.

5. Rhydd hyn gyfle i'r Grŵp Busnes roi ystyriaeth lawn a theilwng i'r ceisiadau gan gynnwys, os yn briodol, cynnal cyfweliadau cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau.

6. **ARGYMHELLIAD.**

   Gofynnir i'r Cyngor ddirprwyo yr hawl i'r Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad ag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol a'r Pennaeth Cyllid i wneud y penodiad ffurfiol o aelod lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.